# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Tachwedd 2025

Amser: 09.30 - 10.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15427

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 2.1 SL(6)673 - Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (Cychwyn a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)674 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)675 - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)676 - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 - trafodwyd eisoes

Nid oedd unrhyw fusnes i'w drafod o dan yr eitem hon.

## 5 Offerynnau sy’n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)661 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)667 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.17 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan: y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol; a chan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mewn perthynas â chyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y DU.

### 6.2 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a’r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**7.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Ymgynghoriad ar Reoliadau Targedau Ansawdd Aer drafft ar gyfer deunydd gronynnol mân**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**7.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) – Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

**7.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**7.5 Llythyr at y Pwyllgor Busnes: Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau: cyhoeddi Biliau cyn eu cyflwyno**

Nododd y Pwyllgor ei ohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes.

**7.6 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor.

**7.7 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ymgynghoriad ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

### 7.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Iechyd Meddwl

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

### 7.9 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tybaco a Fêps

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau sydd i'w cytuno y tu allan i'r Pwyllgor.

## 10 Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, a chytunodd i drafod fersiwn ddiwygiedig o'r adroddiad yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Rhagolwg a diweddariad y Pwyllgor: Diweddariad ar lafar

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ei flaenraglen waith.

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiadau ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), a Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), y tu allan i'r Pwyllgor.